

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Nofio – Mi fydd cyfleoedd pellach i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 gael gwersi nofio o wythnos nesaf ymlaen. **Dydd Iau, Medi'r 29ain – Blwyddyn 6** yn nofio am 9.30 a **Blwyddyn 3** yn nofio am 2.15. Mi fydd yr un drefn yn parhau pob yn ail wythnos am weddill y tymor.

Clwb ar ôl ysgol – diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi dangos diddordeb yn y Clwb Gofal Plant sy'n cael ei drefnu gan yr ysgol. Cafwyd digon o ymateb i ni fedru symud ymlaen gyda'n trefniadau. Yn ystod yr wythnos hon rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod Addysg ac ar hyn o bryd yn ceisio dod o hyd i staff – mae'n amlwg y bydd dod o hyd i staff yn her i ni fel ysgol. Os ydych yn ymwybodol o unigolion sydd yn dymuno gweithio yn y clwb o 3.30 tan 5.15 yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Clwb Chwaraeon – Mi fydd Clwb Chwaraeon ar gyfer Blwyddyn 5 ar ddydd Mercher, Medi'r 28ain, 3.30 – 4.30.

Llyfr Dathliad Jiwbilî Platinwm y Frenhines Elizabeth - mae'r ysgol wedi derbyn cyflenwad o lyfrau dwyieithog sy'n darparu gwybodaeth am Jiwbilî'r Frenhines, Elizabeth II. Mi fyddwn yn dosbarthu copi o'r llyfr i bob plentyn ddydd Llun (mae'r llyfrau yn rhad ac am ddim). Os nad ydych yn dymuno derbyn copi o'r llyfr yna cysylltwch â'r ysgol.

Trawsgwlad ysgolion cylch Aberystwyth – mi fydd gwahoddiad i holl ddisgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 gymryd rhan yng nghystadleuaeth traws gwlad ysgolion cylch Aberystwyth ar ddydd Gwener, Medi'r 30ain. Cynhelir y digwyddiad ar gae'r Ysgol Gymraeg, Penweddig a'r Clwb Rygbi. Mae croeso i rieni / gwarcheidwaid ddod i gefnogi. Mi fydd y ras gyntaf ar gyfer merched Bl. 3 am **10 o'r gloch y bore** gyda gweddill y rasys i ddilyn pob 10 munud.

Sbri Diri yr Urdd – mi fydd disgyblion y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cerdded i Benweddig ar ddydd Gwener, Hydref y 7fed ar gyfer sesiwn o gyd-ganu. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £2.00 y plentyn tuag at y costau – mi fydd angen gwneud y taliad drwy eich cyfrif Parentpay. Mi fydd rhai o blant y Meithrin yn mynuchu yn y bore a'r gweddill yn ystod y prynhawn.

Diwrnod Rhyngwladol yr ysgol – dydd Gwener, Hydref 21ain (rhagor o fanylion i ddilyn)

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams

Pennaeth, 23/09/2022

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Swimming - There will be further opportunities for Key Stage 2 pupils to have swimming lessons next week.
Thursday, September 29th - Year 6 swim at 9.30 and Year 3 swim at 2.15.
The same routine will continue every other week for the rest of the term.

After school childcare club - thank you to those of you who have shown an interest in the childcare club which is being organized by the school. There was enough response for us to move forward with our arrangements. During this week we have been in discussions with the Education Authority and are currently trying to find staff - it is clear that finding staff will be a challenge for us as a school. If you are aware of individuals who wish to work in the club from 3.30 to 5.15 then please contact me immediately.

Sports Club – there will be a sports club for Year 5 on Wednesday, September 28th, 3.30 – 4.30.

Queen Elizabeth's Platinum Jubilee Celebration Book - the school has received a supply of bilingual books that provide information about the Queen's Jubilee. We will distribute a copy of the book to each child on Monday (the books are free). If you do not wish to receive a copy, then contact the school.

Aberystwyth area schools' cross country - all pupils in Years 3, 4, 5 and 6 will be invited to take part in the Aberystwyth district schools' cross-country competition on Friday, September 30th. The event will be held on the Ysgol Gymraeg, Penweddig and Rugby Club fields. Parents / guardians are welcome to come and support. The first race for Year 3 girls will be at 10 o'clock in the morning with the rest of the races to follow every 10 minutes.

Urdd Sbri Diri - Nursery, Reception, Year 1 and Year 2 pupils will be walking to Penweddig on Friday, October 7th for a singing session. We kindly ask for a contribution of £2.00 per child towards the cost, the payment will need to be made through your Parentpay account. Some of the Nursery children will attend in the morning and the rest in the afternoon.

International Day - the school will hold an international day on Friday, October 21st (more details to follow)

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.

R C Williams

Headteacher, 23/09/2022